

Taflen Ffeithiau Rhwydwaith Ffrwythau Meddal Tyfu Cymru

Rheoli Clefydau Ffrwythau Perthi

Gall cyrens, eirin Mair a llus fod yn ychwanegiadau pwysig at unrhyw fusnes ffrwythau meddal, ond mae angen rheoli plâu a chlefydau'n effeithlon er mwyn cael y gorau o'ch planhigion. Mae natur goedaidd barhaol y cnydau hyn yn golygu y gall plâu sydd wedi goroesi dros y gaeaf drosglwyddo problemau o un flwyddyn i'r llall, felly rhaid i chi fod yn wyladwrus iawn wrth fonitro a rheoli cyn i'r materion hyn waethygu. Mae'r canllaw hwn yn crynhoi'r prif feysydd problemus ar gyfer cnydau perthi, ond i gael unrhyw gyngor ar reoli plâu/clefydau, dylech anelu at ymgynghori ag ymgynghorydd sydd â chymhwyster BASIS – gellir trefnu ymweliadau un-i-un ar gyfer busnesau cymwys drwy raglen Tyfu Cymru i ddarparu cyngor wedi'i dargedu i chi ar dyfu ffrwythau meddal.

Yn ddiweddar, mae AHDB wedi rhyddhau dogfen o'r enw Bush Fruit Crop Walker's Guide a all fod yn ddefnyddiol o ran adnabod ystod eang o blâu a chlefydau mewn ffrwythau perthi a mae'n cynnwys ystod eang o ffotograffau. Gellir cael gafael arno ar-lein yma: <https://ahdb.org.uk/knowledge-library/bush-fruit-crop-walkers-guide>

Tocio – Gall tocio effeithiol gael effaith sylweddol ar reoli plâu a chlefydau mewn ffrwythau perthi. Dylech fynd ati i docio ddiwedd yr hydref/gaeaf pan fydd y perthi'n cysgu ar ôl i'r dail gwmpo, a dylai tocio'n dda wella ansawdd y berth a chnwd y flwyddyn nesaf. Pan fyddwch yn tocio, dylech anelu at gael gwared ag unrhyw ganghennau isel sy'n debygol o gyffwrdd y ddaear pan fyddant yn llwythog o ffrwythau, gan fod y ffrwythau hyn yn debygol o aeddfedu'n arafach ac o ddioddef *Botrytis*. Dylid culhau perthi i alluogi golau i fynd i'r canol, ac i ganiatáu mynediad da rhwng perthi (ar gyfer chwistrellu a chynaeafu) i atal difrod. Dylech ganolbwyntio ar dynnu hen bren, ac annog pren newydd i dyfu. Dylech hefyd anelu at dynnu blagur ochrol yn ystod cynhyrchu arferol er mwyn gwella mynediad ar gyfer chwynnu yn dilyn cynaeafu.

Plâu Cyffredin

Gwiddon Chwyddi Cyrens Duon – Gwiddon llai na 0.25mm o hyd sy'n bwydo ac yn epilio o fewn y blagur, gan achosi "Blagur Mawr" gyda blagur mwy o faint yn nodweddiadol (ar y dde). Bydd blagur sydd â'r pla yn dechrau chwyddo yn yr haf, a bydd gwiddon yn dod i'r golwg yn y gwanwyn gan chwilio am flagur newydd i ymsefydlu ynddynt. Gall gwiddon chwyddi hefyd drosglwyddo'r firws dychwelyd cyrens duon – mae hwn yn achosi i'r berth droi'n ôl i sefyllfa "wylt" gyda blagur blodau coch porfforaidd a dail gyda llai o wythiennau a godreon/gwead mwy garw (llun ar y dde isod), a bydd planhigion sydd wedi cael eu heintio'n cynhyrchu cnwd sylweddol is.



Unwaith y bydd wedi'i heintio bydd y firws yn ymledu drwy'r berth gyfan ac felly mae'n bwysig monitro a thocio unrhyw ganghennau sydd wedi'u heintio. Dylid amseru chwistrelliadau sylffwr adeg y bydd blagur yn ymddangos. Mae gan AHDB adnodd rhagfynegi ar gyfer yr amser pan fyddant yn ymddangos a dylid amseru chwistrelliadau ar yr adeg yn union cyn iddyn nhw ddod i'r golwg:

lach

Dychwel



<https://ahdb.org.uk/blackcurrant-gall-mite-emergence-charts>. Mae rhai mathau yn sensitif iawn i sylffwr felly rhaid bod yn ofalus a pheidio'i chwistrellu yn agos at y cyfnod blodeuo. Mae Batavia (EAMU 1054/19) bellach wedi'i gymeradwyo ar gyfer ei ddefnyddio yn dilyn cynaeafu yn ystod y cyfnod tyfu.

Llyslau – Caiff ffrwythau perthi eu targedu gan amrywiaeth o rywogaethau o llyslau (e.e. llaethysgall-cyrens, llyslau eirin Mair neu llyslau pothello). Dylech ystyried chwistrellu llyslau ddiwedd mis Medi a all fod yn fwy effeithlon nac yn y gwanwyn, yn ogystal ag osgoi gweddillion cemegol yn y ffrwythau. Gellir defnyddio thiacloprid (Calypso; EAMU 2133/14) ar gyrens duon sydd â hanes o broblemau gyda llyslau. Ceir EAMU hefyd

o ran defnyddio asidau brasterog (Flipper; EAMU 3418/19) a lambda-cyhalothrin (Hallmark gyda Thechnoleg Zeon; EAMU 3752/06), er y dylid cymryd gofal er mwyn osgoi cyfnod blodeuo gyda'r chwistrellu hwn. Dylech fonitro planhigfeydd sydd wrthi'n sefydlu'n ofalus lle y gall difrod gan lyslau leihau twf yn sylweddol; edrychwch ar flaenau'n rheolaidd rhag ofn fod llyslau wedi ymsefydlu yno, yn enwedig yng nghanol y berth. Gellir defnyddio Spirotetramat (Batavia; EAMU 1054/19) ar gyrens ond dim ond ar ôl cynaefu.

Lindys – Mae plâu o lindys yn gyffredin ar ffrwythau perthi yn y gwanwyn wedi dyfodiad y tywydd cynhesach. Gellir canfod lindys brychan y gaeaf a deilrolwyr ar flaenau brigau a blodau llus, ac mewn blagur cynnar a blodau cyrens ac eirin Mair. Dylech archwilio blagur a deiliach sy'n datblygu am ddarnau bach o faw a sidan lindys am arwyddion cynnar cyn y gellir gweld difrod nodweddiadol "tyllau saethu" a lindys mwy o faint. Gellir rheoli Brychan y Gaeaf a Deilrolwyr ar gyrens duon gyda sponosad (Tracer; EAMU 1203/18) neu chloratraniliprole (Coragen; EAMU 1087/15) cyn blodeuo.



Llifbryf – Bydd lindys â streipiau melyn yn ymosod ar ddail cyrens ac eirin Mair, yn enwedig yng nghanol perthi lle y gall fod yn anodd eu canfod. Bydd lindys llifbryf yn diddeilio perthi os gadewir hwy heb eu rheoli, felly mae'n bwysig bod y rhain yn cael eu monitro mewn cynydu sydd â hanes o fod â phlâu. Gellir rheoli llifbryf mewn cyrens ac eirin Mair gyda thiaclopid (Calypso; EAMU 2014/2133). Mae eirin Mair yn arbennig o agored i ymosodiad gan llifbryf.

Gwiddon Gwinwydd – Mae hwn yn effeithio ar lus mewn potiau a phlanhigfeydd sefydledig o gyrens duon a llus yn benodol. Bydd y gwiddon aeddfed yn ymddangos yn y gwanwyn, gan fwydo ar ddail gan greu bylchau ar odreon dail. Mae'r larfâu sy'n deor o'r wyau sy'n cael eu dodwy gan y gwiddon aeddfed yn bwydo ar wreiddiau planhigion, sy'n gallu gwanhau'r perthi'n ddifrifol iawn pan fyddan nhw wrthi'n sefydlu. Targedu'r larfâu yw'r ffordd fwyaf effeithiol o'u rheoli. Gellir defnyddio nematodau fel *Steinernema krausei* neu *Heterorhabditis bacteriophora* yn rhwydd drwy gyfrwng pibelli diferu neu fel drensh. Edrychwch ar daflen y gwneuthurwr i bennu'r gyfradd angenrheidiol ar gyfer pob sefyllfa gan y bydd yn newid yn unol â maint y pot. Sicrhewch fod unrhyw hidlyddion yn cael eu tynnu cyn defnyddio'r nematodau a bod y daliant yn cael ei ysgwyd yn barhaus fel nad yw'n gwahanu.



Gwiddon Coch Dau Smotyn – Bydd gwiddon yn treulio'r gaeaf ar weddillion organig neu chwyn, ond byddant yn dod i'r amlwg ac yn dodwy wyau ar ddeiliach newydd yn y gwanwyn. Bydd pla fel arfer yn dechrau ganol yr haf wedi i'r ffrwythau sefydlu. Bydd planhigion gyda thwf gwan o ganlyniad i ormod o nitrogen yn gallu hybu poblogaethau gwiddon ac mae planhigion ifanc mewn perygl. Mae gwiddon yn bwydo ar sudd dail, gan arwain at wanhau a chwymp cynnar y dail, gan leihau maint ac ansawdd y ffrwyth y tymor canlynol. Gellir cael rhywfaint o reolaeth o ran cyrens duon gydag Envidor (EAMU 1000/16), ond dylid osgoi ei ddefnyddio'n gynnar yn y tymor gan y gall hynny effeithio ar boblogaethau buddiol o drychfilod a all gadw poblogaethau gwiddon dan reolaeth yn naturiol. Fel arfer, dim ond problem mewn cyrens duon yw'r rhain.



Ymwadiad

Gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb yr wybodaeth a'r argymhellion a roddir yn y nodiadau hyn. Dylai'r holl gemegolion amddiffyn cynydu gael eu defnyddio'n unol â'r argymhellion ar y label, a dylid ymgynghori â'r argymhellion hynny cyn chwistrellu. Efallai na fydd rhai o'r plaladdwyr a grybwyllir yn y nodiadau hyn yn cael eu cefnogi gan argymhellion ar labeli ar gyfer eu defnyddio ar gynydu ffrwythau perthi ond eu bod yn cael eu caniatáu drwy'r Estyniad o Ganiatâd ar gyfer Mân Ddefnydd (EAMU) yn y DU dan y Trefniadau Hirdymor Diwygiedig ar gyfer Ymestyn Defnydd (2002). Yn yr achosion hyn, defnyddir y plaladdwr ar risg y defnyddiwr ei hun ac nid

yw Tyfu Cymru'n derbyn atebolrwydd am unrhyw golled neu ddifrod a achosir gan ddefnydd o'r fath. Dylai tyfwyr fod wedi darllen yr EAMU cysylltiedig â phlaladdwr cyn ei ddefnyddio a rhaid cadw copi electronig neu gopi caled o'r EAMU ar gofnod. Mae'r cyfeiriadau at gymeradwyaeth ar labeli ac EAMU ar gyfer defnyddio plaladdwyr ar ffrwythau perthi yn gywir adeg ysgrifennu. Gall y rhain gael eu newid a gallai cymeradwyaeth gael ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Cyfrifoldeb y tyfwr yw gwirio cymeradwyaeth cyn defnyddio plaladdwyr. Os bydd unrhyw amheuaeth, dylai tyfwr geisio cyngor gan gynghorydd sy'n gymwys dan BASIS - mae hyn ar gael yn rhad ac am ddim ar gyfer tyfwyr cymwys drwy raglen Tyfu Cymru, cysylltwch â ni i drefnu ymweliad â'ch safle.